



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

DIBEN: Adroddiad i'r Panel Heddlu a Throseddu

Penderfyniad: DLI063

Teitl: Penodi Prif Swyddog Ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Crynodeb Gweithredol:

Mae Deddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn nodi bod yn rhaid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu benodi rhywun i fod yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Comisiynydd yn gywir (Prif Swyddog Ariannol y Comisiynydd).

Yn unol ag Atodlen 1 o'r Ddeddf, gofynnir i Aelodau ystyried y penodiad arfaethedig. Er mwyn cefnogi hyn, isod, ceir adroddiad ar y penderfyniad i gyflwyno Ms Beverley Peatling fel yr ymgeisydd o ddewis ar gyfer y swydd Prif Swyddog Ariannol o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Cefnogir y penderfyniad yn unfrydol gan y Panel Penodiadau, sydd, wrth lynu wrth egwyddorion teilyngdod, tegwch a gonestrwydd, wedi herio a phrofi ymgeiswyr yn gadarn er mwyn sefydlu pa un ai a oeddent yn bodloni'r gofynion angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r rôl.

Argymhelliad:

Bod Aelodau o'r Panel Heddlu a Throseddu, ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd iddynt, yn cadarnhau Ms Beverley Peatling fel Prif Swyddog Ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion NOLAN ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Llofnod:

Dyddiad: 05.02.2018

Adroddiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i Aelodau o'r Panel Heddlu a Throseddu

Penodi Prif Swyddog Ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

1. Diben yr Adroddiad

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i Aelodau o'r Panel Heddlu a Throseddu am yr ymgeisydd o ddewis ar gyfer y swydd Prif Swyddog Ariannol. Wrth wneud hyn, rhoddir y rheswm am y penderfyniad bod Ms Beverley Peatling yn addas ar gyfer y rôl.

2. Cefndir Manwl

Yn dilyn ymddiswyddiad Prif Swyddog Ariannol cyfredol SCHTh, ystyriwyd dewisiadau sydd ar gael mewn perthynas â'r swydd statudol hon. Yn y gorffennol, mae Dyfed-Powys wedi cael Prif Swyddog Ariannol ar y cyd rhwng y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Yn dilyn cyngor gan nifer o ffynonellau, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, penderfynwyd penodi Prif Swyddogion Ariannol ar wahân ar gyfer y ddwy gorfforaeth undyn er budd llywodraethu da. Er bod cnewyllyn o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid dal yn rhannu'r swyddogaeth hon, er mwyn cefnogi'r Comisiynydd i ryddhau ei gyfrifoldebau statudol a dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am faterion ariannol, teimlir y dylid parhau â'r trefniant cyfredol o gael Prif Swyddogion Ariannol ar wahân.

Amlinellir rolau a chyfrifoldebau'r ddau Brif Swyddog Ariannol yn glir yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y cyd, ac maen nhw'n seiliedig ar ofynion deddfwriaethol. Heblaw hynny, bydd Prif Swyddog Ariannol SCHTh yn weithredol gysylltiedig â phenderfyniadau busnes strategol, llywodraethu a chraffu ar yr Heddlu a gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu.

Mae'r Pecyn Gwybodaeth ar gyfer Ymgeiswyr (Atodiad A) yn amlinellu'r meini prawf a'r cyd-destun ar gyfer penodi Prif Swyddog Ariannol. Bydd y Prif Swyddog Ariannol yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau statudol a nodir ym mharagraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ac Adran 114 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Bydd Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn gosod cyfrifoldebau pellach.

Yn gryno, fy mwriad oedd chwilio am y canlynol:

- Unigolyn i gyflwyno strategaeth ariannol gadarn, gan sicrhau cywirdeb a rheolaeth ariannol o'r safon uchaf
- Archwiliwr
- Cyfathrebwr effeithiol
- Unigolyn sy'n arloesol ac sy'n meddwl yn eang, gyda hanes o droi syniadau'n weithredoedd drwy ymagwedd arloesol tuag at gyflenwi ariannol sydd hefyd yn gyllidol gadarn.

Defnyddiwyd y meini prawf canlynol er mwyn asesu addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer y penodiad:

- Rhaid bod yn gyfrifydd cymwysedig ac yn aelod o gorff sydd wedi cofrestru â CCAB
- Rhaid arddangos cofnod o gyrhaeddiad mewn sefydliadau cyfredol / cyn-sefydliadau

- Rhaid arddangos profiad eang o bob un o'r prif feysydd a restrir yng Nghyfrifoldebau Rheoli, Statudol a Strategol Allweddol y rôl hon
- Rhaid bod â phrofiad o effeithio newid i wella perfformiad
- Dylid bod â'r gallu i siarad Cymraeg.

Hysbysebwyd y cyfle'n eang drwy wefannau SCHTh a'r Heddlu, gwefannau recriwtio eraill a thrwy gyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, rhannwyd gwybodaeth drwy nifer o rwydweithiau proffesiynol megis y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

Derbyniwyd 20 cais, ac o'r rhain, gwahoddwyd 5 ymgeisydd i gyfweiliad. Roedd rhain o gefndiroedd amrywiol gydag ystod o brofiad yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Roedd y broses gyfweild yn cynnwys 2 elfen:

- Ymarfer – Er mwyn profi'r gallu i graffu, cryfder a sgiliau cyfathrebu.
- Cyfweiliad – Er mwyn profi gallu strategol a dealltwriaeth o'r rôl.

Ceir gwybodaeth bellach yn Atodiad B.

Roedd y Panel Penodi'n cynnwys y canlynol:

Dafydd Llywelyn	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
Carys Morgans	Pennaeth Staff, SCHTh
Jayne Woods	Y Prif Swyddog Ariannol cyfredol, SCHTh
Malcolm MacDonald	Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio a chyn-Ymgynghorydd Ariannol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Ar ddiwedd y broses, roedd y panel yn unfrydol yn eu penderfyniad y gellir penodi Ms Beverley Peatling i'r rôl Prif Swyddog Ariannol fel y nodir yn Atodiad C.

Mae gan Beverley dros ugain mlynedd o brofiad o weithio yn y maes cyllid. Treuliwyd llawer o'r amser hwnnw o fewn amgylchedd blismona. Fel aelod llawn o'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, mae gan Beverley record o lwyddiannau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyfrifoldebau strategol allweddol a statudol y rôl Prif Swyddog Ariannol, a bydd ei blynyddoedd o brofiad o fewn yr amgylchedd blismona o fudd iddi wrth lywio rhai o arlliwiau rheoli ariannol strategol yng ngwasanaeth yr heddlu. Roedd perfformiad Beverley drwy gydol y broses ddethol wedi creu argraff fawr ar y Panel. Rhoddodd berfformiad o safon uchel ac mae'n amlwg ei bod hi'n deall cymhlethdodau'r rôl. Gwnaeth hyn i bob aelod o'r Panel Penodi deimlo'n hyderus ei bod hi'n medru cyflawni swydd Prif Swyddog Ariannol.

Hysbysebwyd y swydd ar yr amrediad £73,308 - £78,249 y flwyddyn. Bydd Beverley'n cychwyn y swydd ar £73,308 y flwyddyn (cyfwerth â llawn amser), fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau, mae'r Comisiynydd yn fodlon iddi gyflawni'r rôl ar sail rhan amser (22.2 awr yr wythnos).

Mae geiradaon wedi'u derbyn ac mae gwiriadau gofynnol wedi'u cwblhau. Caniatwyd cliriad Fetio ar lefelau Fetio Rheoli a Chliriad Diogelwch. Bydd hyn yn caniatáu mynediad at asedau cyfrinachol a mynediad achlysurol at asedau'r heddlu a'r llywodraeth sy'n gwbl gyfrinachol.

Atodir adroddiad gan Malcolm MacDonald yn atodiad Ch fel aelod annibynnol y Panel Penodi.

3. Ystyriaethau o ran Effaith

Goblygiad	Ystyriwyd Effaith (Do/Na)	Effaith a Nodwyd (cyfeiriad paragraff)
Cyfreithiol	Do	Adroddiad Eglurhaol
Ariannol	Do	Prif Adroddiad
Hil a Chydraddoldeb	Do	Prif Adroddiad
Hawliau Dynol	Do	Dim
Amgylcheddol a Chynaliadwyedd	Do	Dim
Dadansoddiad Risg	Do	Prif Adroddiad
Goblygiadau Parc Cenedlaethol	Do	Dim

4. Atodiadau

- Atodiad A – Pecyn Gwybodaeth Ymgeiswyr ar gyfer y swydd Prif Swyddog Ariannol.
- Atodiad B – Ffurflen Asesu Cyfweliad.
- Atodiad C – Ffurflen Cofnodi Cyfweliad.
- Atodiad Ch – Datganiad gan yr Aelod Annibynnol.

5. Papurau Ategol / Cefndir

- Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011
- Cod Ymarfer Rheoli Ariannol ar gyfer Gwasanaeth Heddlu Cymru a Lloegr
- Darperir papurau cyfrinachol pellach i aelodau Panel yn ystod y cyfarfod cyn y Gwrandawriad Cadarnhau.

Gallwch gael copi o'r adroddiad llawn a oedd wedi cael ei chyflwyno i'r Panel Heddlu a Throseddu ar eu gwefan: <http://www.dppoliceandcrimepanel.wales/media/5941/agenda-february-16-2018.pdf>